




Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Arolygon gwirio cyfryngau cymdeithasol: **Sector Addysg Bellach (Rheoliadau Safonau'r Gymraeg Rhif 6)**



Cynnwys

1	Cyflwyniad	3
2	Methodoleg	4
3	Canfyddiadau	5
4	Tueddiadau	8
5	Casgliadau ac Argymhellion	10
	Atodiad	12

1 Cyflwyniad

- 1.1 Eleni, rydym wedi adolygu ein trefniadau ar gyfer monitro a rheoleiddio cydymffurfiaeth sefydliadau cyhoeddus â'u dyletswyddau iaith, er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd â nodau'r Cynllun Strategol a'r Deilliannau Rheoleiddio a gyhoeddwyd yn 2024-2025.
- 1.2 Fel rhan o'r adolygiad hwn, buom yn ystyried pa newidiadau a dulliau amgen oedd eu hangen i wneud y defnydd gorau o'n hadnoddau, ac i hyrwyddo cydymffurfiaeth mewn modd mwy rhagweithiol.
- 1.3 Roeddem yn awyddus i ddatblygu dulliau monitro a hyrwyddo a fyddai'n rhoi mwy o sicrwydd i ni ynghylch cydymffurfiaeth sefydliadau. Penderfynwyd cynllunio arolygon gwirio i'w cynnal yn chwarterol, gyda chanlyniadau'n cael eu hadrodd yn ôl i'r sefydliadau unigol o fewn yr un chwarter.
- 1.4 Un o fanteision allweddol y dull hwn o fonitro yw bod sefydliadau'n cael gwybod am unrhyw faterion cydymffurfiaeth mewn modd amserol drwy gydol y flwyddyn, gan roi cyfle iddynt weithredu atebion priodol yn brydlon.
- 1.5 Mae cyfryngau cymdeithasol wedi'u nodi fel maes blaenoriaeth ar gyfer pob sefydliad eleni. Daw hyn yn sgil y ffaith bod arferion sefydliadau yn y maes hwn wedi esblygu'n sylweddol dros y pedair blynedd ddiwethaf, gyda defnydd cynyddol o amrywiaeth o blatfformau.
- 1.6 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o ganfyddiadau'r arolygon gwirio a gynhaliwyd â sefydliadau o fewn y sector addysg bellach sy'n ddarostyngedig i Reoliadau Safonau'r Gymraeg Rhif 6 gan gyflwyno argymhellion i chi eu hystyried i sicrhau gwell cydymffurfiaeth o fewn eich sefydliad chi.
- 1.7 Yn ogystal â'r adroddiad hwn, bydd canfyddiadau unigol yn cael eu trafod gyda phob sefydliad er mwyn cynnig adborth wedi'i deilwra a chefnogi camau gwella penodol.

2 Methodoleg

- 2.1 Arolygwyd 14 o sefydliadau sy'n ddarostyngedig i Reoliadau Safonau'r Gymraeg Rhif 6. Arolygwyd sefydliadau Addysg Uwch hefyd a chrëwyd adroddiad ar wahân ar gyfer y sefydliadau hynny.
- 2.2 Arolygwyd y sefydliadau yn ystod Gorffennaf 2025.
- 2.3 Mae Rheoliadau Rhif 6, sef Rheoliadau Safonau'r Gymraeg sy'n berthnasol i'r sector Addysg Bellach, yn cynnwys dwy safon, sef safon 62 a safon 63 sy'n cyfeirio at ddefnydd sefydliadau o'r cyfryngau cymdeithasol.
- 2.4 Mae Safon 62 yn nodi '*Pan fyddwch yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, rhaid i chi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg*'.
- 2.5 Mae Safon 63 yn cyfeirio at ymateb i bobl ar y cyfryngau cymdeithasol '*Os bydd person yn cysylltu â chi drwy'r cyfryngau cymdeithasol yn Gymraeg, rhaid ichi ateb yn Gymraeg (os oes angen ateb)*'.
- 2.6 Roedd yr arolygon hyn yn canolbwyntio ar gydymffurfiaeth â safon 62.
- 2.7 Gwiriwyd platfformau Instagram a LinkedIn ar gyfer y 14 sefydliad dan sylw. Nid yw'r Comisiynydd wedi arolygu'r platfformau hyn o'r blaen. Roedd pob un o'r 14 sefydliad yn defnyddio Instagram, tra bod 13 ohonynt yn defnyddio LinkedIn. Roedd hyn oherwydd bod dau goleg wedi cyfuno i ddefnyddio un cyfrif ar LinkedIn. Erbyn hyn, mae'r ddau goleg yn defnyddio un cyfrif Cymraeg ac un cyfrif Saesneg ar gyfer Instagram hefyd. Fodd bynnag, nid oedd y newid hwn wedi'i gwblhau ar adeg yr arolygiad, ac felly arolygwyd 14 sefydliad ar Instagram ac 13 ar LinkedIn.
- 2.8 Gwiriwyd 10 neges diweddar gan bob sefydliad ar eu prif gyfrifon ar y ddau blatfform. Yn gyfan gwbl, gwiriwyd 270 o negeseuon, gan wirio:
 - A oedd y neges ar gael yn Gymraeg?
 - A oedd y neges yn cydymffurfio â gofynion safonau yn ymwneud â chyfryngau cymdeithasol?
 - A oedd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg?
- 2.9 Yn ogystal, gwiriwyd cydymffurfiaeth â safon 87 sy'n ymwneud â hunaniaeth gorfforaethol. Mae safon 87 yn nodi:


'Pan fyddwch yn llunio, yn diwygio neu'n cyflwyno eich hunaniaeth gorfforaethol, rhaid i chi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg'.

3 Canfyddiadau

- 3.1 Mae Cod Ymarfer Rheoliadau Rhif 1 yn nodi bod defnydd corff o'r cyfryngau cymdeithasol yn cynnwys y ffordd '*... y mae corff yn ymddangos, yn cyhoeddi deunydd, yn anfon ac ymateb i negeseuon ac yn cyfathrebu gyda phersonau ar y cyfryngau cymdeithasol*'. Nid oes Cod Ymarfer ar gyfer Rheoliadau Rhif 6 eto.
- 3.2 Noda'r Cod Ymarfer y gall corff weithredu dau gyfrif ar wahân neu gyfrif dwyieithog.

Cyfrifon Instagram

- 3.3 Roedd 10 o'r 14 sefydliad yn defnyddio cyfrif dwyieithog gyda pedwar yn defnyddio cyfrif Cymraeg a Saesneg ar wahân ar gyfer Instagram.
- 3.4 Gwiriwyd 10 neges ar gyfer pob sefydliad.
- 3.5 Wrth fonitro negeseuon ar blatfform Instagram, roedd 54 o'r 140 yn cydymffurfio'n llawn sef 38.6%. Roedd 55% yn cydymffurfio'n rhannol a 6.4% o negeseuon lle nad oeddent yn cydymffurfio.




- 3.6 Roedd 79% o negeseuon a wiriwyd ar gael yn Gymraeg, tra bod 5% heb eu darparu yn Gymraeg o gwbl, a 16% ar gael yn rhannol yn Gymraeg. Nodwyd bod 66% o negeseuon yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- 3.7 Dim ond pedwar cyfrif a wiriwyd oedd yn cydymffurfio'n llawn â gofynion hunaniaeth gorfforaethol. Roedd 10 cyfrif arall yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, gyda'r diffyg cydymffurfiaeth yn deillio o amryw resymau, megis disgrifiadau proffil (Bio) yn Saesneg yn unig, llai o wybodaeth yn y testun Cymraeg o'i gymharu â'r testun Saesneg, neu'r defnydd o enw Saesneg y sefydliad ar gyfer y cyfrif neu'r 'handle'.

- 3.8 Gwelwyd hefyd anghysondebau rhwng cyfrifon Cymraeg a Saesneg ar wahân, gan gynnwys nifer uwch o logos ‘Stori’ ar gyfrifon Saesneg, diffyg ‘Stori’ wedi’u harbed ar y cyfrif Cymraeg, neu absenoldeb ‘Stori’ cyfatebol ar gyfrifon Cymraeg. Ar gyfrifon dwyieithog, nodwyd bod teitlau’r rhesi o ‘Stori’ yn aml yn Saesneg yn unig.
- 3.9 Yn achos cyfrifon Cymraeg a Saesneg ar wahân, gwelwyd hefyd nad oedd rhai fideos wedi’u cyhoeddi ar y cyfrif Cymraeg. Roedd defnydd helaeth o fideos ar Instagram, ac aseswyd cydymffurfiaeth fel un o sicrwydd canolig ar gyfer y rhan fwyaf ohonynt. Nodwyd diffyg cyfranwyr Cymraeg, yn ogystal a defnydd o destun Saesneg ar y fideos.
- 3.10 Ar gyfer fideos lle’r roedd unigolion penodol yn siarad Saesneg – megis cyn-fyfyrwyr mewn rolau penodol neu gyn-chwaraewyr pêl-droed – roedd is-deitlau Cymraeg wedi’u cynnwys. Mewn sefyllfaoedd o’r fath, mae’r Comisiynydd yn cydnabod efallai nad yw’n bosibl sicrhau cyfranwyr Cymraeg bob tro.
- 3.11 Er bod nifer o fyfyrwyr, tiwtoriaid ac aelodau o staff yn cyfrannu at y fideos, prin iawn oedd y cyfranwyr Cymraeg. Er bod testun ac is-deitlau Cymraeg ar gael y rhan fwyaf o’r amser, byddai cynyddu nifer y cyfranwyr Cymraeg yn cyfrannu at sicrhau nad yw’r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na’r Saesneg.
- 3.12 Yn ogystal, gwelwyd rhai fideos a oedd yn codi amheuaeth o fethiant i gydymffurfio â safonau eraill, megis y rheini sy’n ymwneud ag arwyddion, arwyddion dros dro, a chyhoeddi dogfennau.

Cyfrifon LinkedIn

- 3.13 Gwiriwyd 13 sefydliad wrth fonitro LinkedIn, gan fod dau goleg wedi cyfuno i ddefnyddio un cyfrif ar y platfform hwn. Erbyn hyn, mae’r ddau goleg hefyd yn defnyddio un cyfrif Cymraeg ac un cyfrif Saesneg ar gyfer Instagram, ond nid oedd y trefniant hwn wedi’i gwblhau ar adeg yr arolygiad. O ganlyniad, arolygwyd 14 sefydliad ar Instagram ac 13 ar LinkedIn.
- 3.14 Roedd 11 o’r 13 sefydliad yn defnyddio cyfrif dwyieithog ar LinkedIn, tra bod dau sefydliad yn gweithredu cyfrifon Cymraeg a Saesneg ar wahân. Gwiriwyd 10 neges ar gyfer pob sefydliad.
- 3.15 Wrth asesu hunaniaeth gorfforaethol ar LinkedIn, nodwyd bod 12 o’r 13 cyfrif yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.
- 3.16 Roedd y rhesymau’n amrywio, gan gynnwys diffyg testun Cymraeg yn yr adran ‘Overview’, absenoldeb brawddeg fer yn Gymraeg o dan y teitl er bod un yn Saesneg, a’r defnydd o enw neu deitl Saesneg ar y cyfrif.
- 3.17 Yn ogystal, gwelwyd mai dim ond nifer fach o linellau o’r disgrifiad am y sefydliad sy’n ymddangos ar dudalen gartref y cyfrif os yw’r blwch ‘Overview’ wedi’i lenwi. Os yw’r Gymraeg yn ymddangos ar ôl y Saesneg, nid yw’n weladwy ar unwaith ac mae angen clicio ar fotwm ‘Mwy’ neu sgrolio lawr i’w gweld. Mae’r un broblem yn berthnasol i negeseuon lle mae’r Gymraeg yn dilyn y Saesneg, gan leihau ei gwelededd a’i hygyrchedd.

3.18 Wrth fonitro negeseuon ar blatfform LinkedIn, roedd 53 o'r 130 yn cydymffurfio'n llawn sef 41%. Roedd 42% yn cydymffurfio'n rhannol a 17% lle nad oeddent yn cydymffurfio.



3.19 Roedd 83% o negeseuon a wiriwyd ar LinkedIn ar gael yn Gymraeg, tra bod 11% heb eu darparu yn Gymraeg o gwbl, a 6.2% ar gael yn rhannol yn Gymraeg. Nodwyd bod 59.2% o negeseuon yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Cyfuno canlyniadau Instagram a LinkedIn

3.20 O'r 270 o negeseuon a wiriwyd ar draws Instagram a LinkedIn, roedd 219 ar gael yn Gymraeg, ond dim ond 107 ohonynt (39.6%) oedd yn cydymffurfio'n llawn â gofynion safon 62. Er bod 81% o'r negeseuon ar gael yn Gymraeg, roedd llai na hanner ohonynt yn cydymffurfio'n llawn.

3.21 Roedd 132 o'r negeseuon (48.9%) yn cydymffurfio'n rhannol, er bod y Gymraeg yn bresennol, nid oedd y negeseuon yn bodloni'r gofynion yn llawn. Roedd hynny am resymau amrywiol, gan gynnwys:

- y neges yn ymddangos yn Saesneg yn gyntaf
- dolenni o'r testun Saesneg yn unig
- hashnodau Saesneg yn unig
- camgymeriadau yn y testun Cymraeg
- cynnwys gweledol (e.e. lluniau, poster, arwyddion) yn Saesneg yn unig
- dolenni yn y testun Cymraeg yn arwain at dudalennau Saesneg.

3.22 O'r 270 o negeseuon a wiriwyd ar draws Instagram a LinkedIn, nid oedd 31 ohonynt (11.5%) yn cydymffurfio â gofynion safon 62. Roedd naw o'r negeseuon hyn wedi'u cyhoeddi ar Instagram, a 22 ar LinkedIn. Yn ogystal, nodwyd bod 169 o'r negeseuon (63%) yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Roedd hyn yn cynnwys achosion lle'r oedd y testun Saesneg yn ymddangos yn gyntaf, neu lle'r oedd dolenni'n bresennol yn y fersiwn Saesneg yn unig.

3.23 Ar Instagram, gwelwyd 71 o fideos, tra bod y defnydd o fideos ar LinkedIn yn llawer is, gyda dim ond 13 fideo wedi'u postio. Fodd bynnag, ni nodwyd bod un platfform yn perfformio'n well na'r llall o ran peidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

4 Tueddiadau

- 4.1 Yn gyffredinol, mae angen tipyn o welliant gan y sector i wella cydymffurfiaeth â'r safonau sy'n berthnasol i gyfryngau cymdeithasol a hunaniaeth gorfforaethol, yn enwedig o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg


- 4.2 Roedd y rhan fwyaf o sefydliadau yn defnyddio'r Gymraeg wrth gyhoeddi negeseuon, naill ai drwy gyhoeddi un neges ddwyieithog (gyda'r Gymraeg a'r Saesneg yn rhan o'r un neges) neu drwy gyhoeddi negeseuon ar wahân yn y ddwy iaith. Fodd bynnag, o fewn y negeseuon dwyieithog, gwelwyd amrywiaeth o arferion a oedd yn effeithio ar welededd y Gymraeg.
- 4.3 Mewn rhai achosion, roedd sefydliadau'n gosod teitl y neges yn Gymraeg, ond yn dilyn hynny gyda'r testun Saesneg yn gyntaf ac yn gosod y Gymraeg islaw. Golyga hyn fod angen i'r darllenwr sgrolio heibio'r testun Saesneg i gyrraedd y neges Gymraeg, gan leihau ei hygyrchedd. Mewn achosion eraill, roedd y teitl yn Saesneg gyda'r testun Cymraeg yn ymddangos yn gyntaf.
- 4.4 Un o'r prif wendidau a nodwyd oedd diffyg cysondeb rhwng y testun Cymraeg a Saesneg o ran cynnwys dolenni at gyfrifon partneriaid, sefydliadau eraill neu unigolion. Yn aml, nid oedd y testun Cymraeg yn cynnwys y dolenni perthnasol. Er y gallai hyn adlewyrchu amharodrwydd i gysylltu â sefydliadau sydd â chyfrifon uniaith Saesneg e.e. WorldSkills UK, mae hepgor y ddolen yn golygu nad yw'r darllenwr Cymraeg yn cael yr un lefel o wybodaeth, gan arwain at driniaeth llai ffafriol.
- 4.5 Gwelwyd hefyd enghreifftiau o Gymraeg wallus neu gyfieithu llythrennol o'r Saesneg, er bod y rhain yn gymharol brin. Fodd bynnag, pan fo'r testun Cymraeg yn aneglur neu'n annigonol, mae hynny'n golygu bod angen darllen y testun Saesneg i ddeall y neges yn llawn, gan danseilio statws y Gymraeg.
- 4.6 Yn ogystal, roedd nifer o sefydliadau yn defnyddio hashnodau fel rhan o'u negeseuon, ond mewn rhai achosion, nid oedd y hashnodau'n bresennol yn y testun Cymraeg ac roeddent yn Saesneg yn unig. Pan fo negeseuon yn ddwyieithog neu'n cael eu cyhoeddi ar wahân yn y ddwy iaith, dylid sicrhau bod hashnodau ar gael yn y Gymraeg hefyd, er mwyn osgoi triniaeth anghyfartal rhwng y ddwy iaith.

Hunaniaeth Gorfforaethol

- 4.7 Canlyniadau'r gwaith monitro o ran hunaniaeth gorfforaethol oedd y rhai gwaethaf o blith y meysydd a wiriwyd. Roedd y diffyg cydymffurfiaeth yn deillio'n bennaf o'r ffordd roedd teitlau cyfrifon a disgrifiadau sefydliadol yn cael eu cyflwyno ar dudalennau cartref y platfformau. Yn aml, roedd y wybodaeth yn uniaith Saesneg neu'n cynnwys llai o fanylion yn Gymraeg.

Fideos a chlipiau sain

- 4.8 Gwelwyd defnydd helaeth o fideos ar Instagram ond nid oedd llawer yn cydymffurfio'n llawn. Roedd diffyg cyfranwyr Cymraeg ar y fideos ac roedd rhai yn gosod testun Saesneg ar y fideo ynghyd â defnyddio cerddoriaeth Saesneg yn y cefndir. Gwelwyd un enghraifft o fyfyrwr yn gwisgo bathodyn IaithGwaith y Comisiynydd, ond cyfrannodd yn Saesneg oni bai am un frawddeg ar y diwedd.
- 4.9 Rydym yn cydnabod y gall sicrhau siaradwyr Cymraeg ym mhob achlysur fod yn heriol, ac mewn rhai amgylchiadau eithriadol, yn amhriodol lle bernir bod angen cyfleu'r neges yn uniongyrchol gan berson nad ydyw'n medru'r Gymraeg (e.e. Prif Weithredwr neu Is-Ganghellor yn gwneud cyhoeddiadau swyddogol ar frys).
- 4.10 Er bod natur rhai fideos yn benodol ac arbenigol iawn eu cynnwys, gwelwyd ambell i enghraifft lle bo sefydliad wedi llwyddo i gyhoeddi fideo yn Gymraeg yn llwyddiannus. Gwelwyd fideo gan Goleg Cambria gyda throsloais Cymraeg ac yn cydymffurfio'n llawn gyda'r safonau.



- 4.11 Gwelwyd hefyd enghreifftiau o sefydliadau yn cyhoeddi fideos heb ddeialog, gyda cherddoriaeth yn y cefndir ond heb lais. Mewn sectorau eraill, nodwyd enghreifftiau lle'r oedd fideos o'r fath yn cynnwys testun yn Gymraeg neu'n ddwyieithog. Ystyrir rhain yn ddulliau effeithiol o gyfleu negeseuon yn Gymraeg mewn sefyllfaoedd lle gall fod yn heriol sicrhau cyfranwyr sy'n siarad Cymraeg.

Safonau eraill

- 4.12 Roedd rhai lluniau a ddefnyddiwyd o ddigwyddiadau yn codi amheuan o ddiffyg cydymffurfiaeth â rhai safonau eraill, er enghraifft, safonau sy'n berthnasol i ddogfennau, arwyddion ac arwyddion dros dro.

5 Casgliadau ac Argymhellion

- 5.1 Mae'r gwaith monitro wedi amlygu nifer o feysydd lle mae angen gwelliant sylweddol gan sefydliadau o ran cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg ar gyfryngau cymdeithasol ac ym maes hunaniaeth gorfforaethol. Er bod rhai enghreifftiau o arfer da, megis cyfrifon dwyieithog a fideos gyda throslys Cymraeg, roedd y mwyafrif o negeseuon yn dangos tueddiad i drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- 5.2 Er bod y gyfran o negeseuon ar gael yn Gymraeg yn gymharol uchel (81%), dim ond 39.6% o'r negeseuon oedd yn cydymffurfio'n llawn â'r safonau. Roedd cydymffurfiaeth negeseuon ar y ddau blatfform yn uwch na chydymffurfiaeth â gofynion hunaniaeth gorfforaethol, ond nodwyd bod bron i ddwy o bob tair neges yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol.
- 5.3 Yn y gorffennol, platfformau Facebook a Twitter/X oedd yn cael eu monitro gan y Comisiynydd, ac roedd cydymffurfiaeth y sector yn uwch ar y platfformau hynny. Mae'r canfyddiadau presennol yn awgrymu bod angen i sefydliadau adolygu eu dulliau cyfathrebu ar Instagram a LinkedIn yn benodol.
- 5.4 Ymhlith y prif feysydd o bryder roedd:
- Blaenoriaethu'r Saesneg o ran trefniant testun, teitlau, dolenni a hashnodau
 - Diffyg cyfranwyr Cymraeg mewn fideos, a defnydd o gerddoriaeth Saesneg yn unig
 - Diffyg dolenni yn y testun Cymraeg, gan arwain at wybodaeth anghyflawn
 - Diffyg disgrifiadau Cymraeg ar gyfrifon
 - Camgymeriadau ieithyddol
 - Diffyg cydymffurfiaeth â safonau eraill megis arwyddion
- 5.5 Er bod rhai sefydliadau wedi llwyddo i gyhoeddi cynnwys dwyieithog effeithiol, mae'r canlyniadau'n dangos bod angen trefniadau mwy cadarn i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- 5.6 Er bod rhai sefydliadau wedi llwyddo i gyhoeddi cynnwys dwyieithog effeithiol, mae'r canlyniadau'n dangos bod angen trefniadau mwy cadarn i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- 5.7 Ar sail canfyddiadau'r arolwg, rydym yn cyflwyno'r argymhellion isod i'r sefydliadau Addysg Bellach sydd yn ddarostyngedig i Reoliadau Safonau'r Gymraeg Rhif 6:

Argymhelliad 1: Hunaniaeth Gorfforaethol

Dylai sefydliadau ddefnyddio enw Cymraeg neu ddwyieithog ar gyfer cyfrifon dwyieithog, gan gynnwys y 'handle'. Anogir sefydliadau i adolygu'r holl wybodaeth ar eu profiliau – megis disgrifiadau, bio, ac adran 'Overview' – ar draws pob platfform, er mwyn sicrhau bod y cynnwys ar gael yn Gymraeg ac mai'r Gymraeg sy'n ymddangos gyntaf. Dylid hefyd gwirio bod y testun Cymraeg yn gywir o ran ystyr a mynegiant.

Argymhelliad 2: Defnydd o hashnodau

Dylai sefydliadau, os ydynt yn defnyddio hashnodau, sicrhau eu bod ar gael yn y Gymraeg ac yn dilyn y neges Gymraeg, yn yr un modd ag y cânt eu defnyddio yn y neges Saesneg.

Argymhelliad 3: Rhannu negeseuon gan gyrff allanol

Os yw dolenni'n cael eu cynnwys yn y neges Saesneg, dylid sicrhau bod dolen gyfatebol yn y neges Gymraeg. Os nad oes cyfrif neu wefan Gymraeg ar gael gan y sefydliad partner, argymhellir defnyddio'r un ddolen â'r fersiwn Saesneg, er mwyn sicrhau profiad cyfartal i'r darllenwr Cymraeg.

Argymhelliad 4: Cysondeb wrth gyhoeddi negeseuon

Dylai sefydliadau wirio cyn cyhoeddi negeseuon bod y Gymraeg yn ymddangos gyntaf, a bod y testun Cymraeg yn gywir o ran ystyr a mynegiant ac yn cyfleu'r un neges â'r testun Saesneg.

Argymhelliad 5: Fideos

Wrth gyhoeddi fideos, dylai sefydliadau ystyried cyfranogiad siaradwyr Cymraeg a sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei chyfleu'n glir ac yn gyfartal. Dylid archwilio dulliau amgen o greu fideos Cymraeg – megis troslais, testun neu fideos heb lais – er mwyn cynnal cydymffurfiaeth â'r safonau pan fo cyfranwyr Cymraeg yn brin.

Atodiadau

Atodiad 1: Data'r arolwg

	Instagram	LinkedIn	Cyfanswm a chanrannau
Nifer y sefydliadau sy'n defnyddio'r platfform	14	13	27
Nifer a chanran y sefydliadau â chyfrif Cymraeg ar wahân	4 (28.5%)	2 (15.4%)	6 (22.2%)
Nifer a chanran y sefydliadau a chyfrif dwyieithog	10 (71.4%)	11 (84.6%)	21 (77.8%)
Nifer a chanran y sefydliadau â chyfrif Saesneg yn unig	0	0	0
Canran yn cydymffurfio â gofynion hunaniaeth gorfforaethol	4 (28.6%)	1 (7.7%)	5 (18.5%)
Nifer y negeseuon a wiriwyd	140	130	270
Nifer a chanran y negeseuon oedd ar gael yn Gymraeg	111 (79.3%)	108 (83%)	219 (81.1%)
Nifer a chanran y negeseuon oedd yn cydymffurfio yn llawn	54 (38.6%)	53 (40.8%)	107 (39.6%)
Nifer a chanran y negeseuon oedd yn cydymffurfio yn rhannol	77 (55%)	55 (42.3%)	132 (48.9%)
Nifer a chanran y negeseuon oedd yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg	92 (65.7%)	77 (59.2%)	169 (62.6%)

Nifer a chanran y negeseuon nad oedd yn cydymffurfio	9 (6.43%)	22 (16.9%)	31 (11.5%)
Nifer a chanran y negeseuon nad oeddent ar gael yn Gymraeg	7 (5%)	14 (10.8%)	21 (7.7%)
Nifer a chanran y negeseuon a oedd ar gael yn rhannol yn Gymraeg.	22 (15.7%)	8 (6.2%)	30 (11.1%)

Atodiad 2: Rhestr sefydliadau'r arolwg

- Addysg Oedolion Cymru
- Coleg Caerdydd a'r Fro
- Coleg Cambria
- Coleg Catholig Dewi Sant
- Coleg Ceredigion
- Coleg Gwent
- Coleg Gŵyr Abertawe
- Coleg Merthyr Tudful
- Coleg Penybont
- Coleg Sir Benfro
- Coleg Sir Gâr
- Coleg y Cymoedd
- Grŵp Colegau NPTC
- Grŵp Llandrillo Menai